**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO**

**SUBJECT:** **PWLLGOR CRAFFU ADFYWIO - DYDD MERCHER, 2 RHAGFYR 2020 DYDD MERCHER, 2 RHAGFYR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: J. HILL (CADEIRYDD)

Councillors G. A. Davies (Is-gadeirydd)
M. Cook
P. Edwards
K. Hayden
W. Hodgins
H. McCarthy
J. C. Morgan
J. P. Morgan
L. Parsons
K. Rowson
B. Willis

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G.L. Davies, D. Wilkshire, M. Cross.<br><br>Cyflwynodd y Cynghorydd S. Healey ymddiheuriadau hefyd | |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd problemau technegol. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd L. Parsons fuddiant yn Eitem Rhif 7 Cynllun Rheoli Cyrchfan.<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn Eitem Rhif 8 Adolygiad Perfformiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2020/21 Chwarter 1. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU ADFYWIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Hydref.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU – 21 HYDREF 2020</u>**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Adfywio a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020.<br><br>*<u>Blaenraglen Gwaith</u>*<br><br>Dywedodd Aelod y gofynnwyd am yr adroddiad ar yr Ardal Gwella Busnes fel mater o frys a mynegodd bryder na fyddid yn derbyn yr adroddiad tan y Flwyddyn Newydd. Credai y dylid bod wedi rhoi dyddiad pryd y disgwylid i'r adroddiad fod ar gael.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Rheolwr Arloesedd Busnes mai'r flaenoriaeth bresennol yw delio gyda'r pecynnau ysgogiad economaidd. Fodd bynnag, cadarnhaodd y caiff yr adroddiad ei gynnwys yn y Flaenraglen Gwaith a dywedodd y byddai'n trafod gydag endid cyfreithiol yr Ardal Gwella Busnes pryd y gellid disgwyl diweddariad ar y cynllun busnes.<br><br>Yn amodol ar yr uchod, CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>GRŴP GORCHWYL A GORFFEN STRATEGAETH AC ADOLYGU TRAFNIDIAETH</u>**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio | |

ar gyfer ei ystyried.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ac enwebiadau i ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Strategaeth ac Adolygu Trafnidiaeth'.

Dywedodd fod angen i drafnidiaeth esblygu i ateb heriau newydd ac addasu i newidiadau yn y galw, ac er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bod strategaeth ac adolygiad yn cael eu datblygu er mwyn dynodi rhaglen o waith a fyddai'n rhoi gweledigaeth strategol a chynllun ar gyfer trafnidiaeth o fewn Blaenau Gwent. Oherwydd ehangder y materion sydd angen edrych arnynt fel rhan o'r Adolygiad a'r Strategaeth, mae angen clir ar gyfer cynrychiolaeth Aelodau i gefnogi'r gwaith a'i oruchwylio a'i weithredu drwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Gofynnodd Aelod pa drefniadau a gafodd eu rhoi ar waith i ddarparu trafnidiaeth gyhoeddus i ysbyty newydd y Faenor.

Dywedodd y Swyddog fod llwybr trafnidiaeth presennol yn bodoli i'r Faenor a'i fod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i ddynodi angen a galw penodol. Mae'r trafodaethau hyn yn mynd rhagddynt i wneud yn siŵr fod darpariaeth ddigonol i alluogi pobl i gael mynediad i'r ysbyty.

Dywedodd yr Aelod fod angen monitro hyn, a bod y system drafnidiaeth gyhoeddus wedi ei chwalu fel canlyniad i'r pandemig.

Atebodd y Swyddog y cafodd y pandemig effaith sylweddol ar hyfywedd masnachol nifer o lwybrau taith. Rhan o brosiect peilot yr IRT yw dynodi a llenwi'r bylchau hynny mewn gwasanaethau, yn arbennig edrych ar ardaloedd sy'n neilltuol o ynysig a chysylltu'r ardaloedd hynny i'r rhwydwaith yn nhermau bws a rheilffordd.

Dywedodd y Cynghorydd J.C. Morgan yr hoffai eistedd ar y grŵp Gorchwyl a Gorffen, a dywedodd ei bod yn bwysig fod holl rannau'r Fwrdeistref yn cael eu cynrychioli. Yng nghyswllt sylwadau am drafnidiaeth i Ysbyty'r Faenor, dywedodd y dylai hyn gael ei ystyried fel rhan o waith yr IRT a dylai hefyd fod yn faes i gael ei ystyried gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog fod yr IRT yn wasanaeth hyblyg a bod angen i ni gofio mai prosiect peilot oedd, ac mai'r syniad tu ôl iddo yw gweithredu fel gwasanaeth lle mae bylchau

a'u cysylltu gyda'r ddarpariaeth greiddiol. Dywedodd y byddai'n esblygu fel prosiect ond ei bod yn bwysig fod dialog yn parhau gyda gweithredwyr presennol.

Dywedodd yr Aelod y deallai mai prosiect peilot yw ond mae hefyd yn gyfle i sicrhau darpariaeth gwasanaeth digonol i ysbyty newydd y Faenor a hefyd Nevill Hall, gan fod yr ysbytai hyn yn bwysig iawn i Flaenau Gwent ac y dylent gael eu cynnwys fel rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cyfeiriodd Aelod at ba mor aml y bwriedir cyfarfodydd o'r Grŵp, a dywedodd na fyddai cyfarfodydd bob chwarter yn ddigonol. Dywedodd hefyd y dylid hysbysu'r cyhoedd y cafodd Grŵp ei sefydlu i edrych ar drafnidiaeth gyhoeddus gan fod hyn yn bryder mar o fewn y gymuned.

Dywedodd y Swyddog y caiff ei llywio gan Aelodau am ba mor aml y dylai'r cyfarfodydd gael eu cynnal.

Cyfeiriodd Aelod at adran 2.3 yr adroddiad a gofynnodd os byddai unrhyw gefnogaeth ar gael ar gyfer tacsis yn y symud tuag at ddefnyddio cerbydau allyriad isel iawn, tebyg i Gynllun Bws Argyfwng Llywodraeth Cymru. Gofynnodd hefyd pam fod y Cyngor wedi neilltuo £25k i wneud y gwaith hwn pan mai cynllun Llywodraeth Cymru ydyw.

Yng nghyswllt tacsis, cadarnhaodd y Swyddog eu bod yn rhan allweddol o ddatblygu gwasanaeth trafnidiaeth strategol ac integredig. Mae rhaglenni cymorth ar gael drwy Lywodraeth Cymru a chadarnhaodd fod y Rheolwr Arloesedd Busnes a'i dîm yn gweithio gyda thacsis i'w cefnogi, a'i fod yn parhau i lobio Llywodraeth Cymru am gefnogaeth ar gyfer y sector hwnnw.

Gan fod hon yn astudiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol, dywedodd nad oedd yn gymwys am gyllid drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol. Dywedodd fod y £25k a ddyrannwyd yn gyllideb bresennol a bod angen i'r awdurdod lleol edrych ar yr hyn sydd yn ei angen yn yr ardal tra bod y polisi trafnidiaeth rhanbarthol yn cael ei ddatblygu er mwyn galluogi cysylltiadau ar lefel fwy rhanbarthol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio fod gwaith yn cael ei wneud i gefnogi tacsis yn y tymor byr, ond hefyd bod y Brifddinas Ranbarth wedi derbyn cyllid i edrych ar gefnogaeth tymor hirach, yn neilltuol y symud i gerbydau allyriad isel.

Dywedodd Aelod y dylai'r Cyngor hefyd uchafu ei gyfleoedd drwy Fetro De Cymru. Dywedodd fod Blaenau Gwent ar ymyl prifddinas-ranbarth ond mynegodd bryder am y cysylltiadau ar hyd y Cymoedd i'r stadau diwydiannol, a dywedodd y dylai hyn hefyd gael ei gynnwys o fewn cwmpas gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio y caiff Metro De Cymru ei gynnwys ym mhwyntiau bwled adran 2.6 yr adroddiad, a dywedodd mai diben y strategaeth oedd edrych ar wahanol elfennau a dod â'r rhain ynghyd mewn dogfen gydlynol. Cadarnhaodd y byddai'r gwaith ar hyd yr A465 yn ffurfio rhan o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a byddai mewnbwn gan Aelodau lleol yn sicrhau gorchudd ar draws y Fwrdeistref. Dywedodd hefyd fod y Cyngor fel rhan o'r IRT yn gweithio'n agos gyda'r Ardal Gwella Busnes ar ddarparu gwasanaethau i Stad Ddiwydiannol Rasa i alluogi pobl i deithio yno.

Cyfeiriodd Aelod at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru na fyddai ffordd liniaru'r M4 yn mynd yn ei blaen, a goblygiadau'r penderfyniad hwnnw, a gofynnodd os oedd y cynigion ar gyfer Rheilffordd Ebwy Fawr yn dal i fynd rhagddynt.

Cadarnhaodd y Swyddog y cynhwysir cyfres o becynnau o fewn Comisiwn Burns Llywodraeth Cymru i drin materion yn deillio oherwydd nad yw prosiect yr M4 yn mynd yn ei flaen. Yn nhermau'r cysylltiad i Abertyleri, cadarnhaodd fod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Trafnidiaeth Cymru i symud ymlaen â hynny a'i fod yn y broses o gomisiynu gwaith ar hyn o bryd i ddynodi'r gwaith sydd ei angen i wireddu hynny fel prosiect allweddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod hwn yn ddarn allweddol o waith wrth ddynodi'r anghenion a blaenoriaethau am drafnidiaeth o fewn y Fwrdeistref Sirol a hefyd yn nhermau anghenion rhanbarthol.

Dilynodd trafodaeth am aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

Cynigiwyd y dylid ymestyn aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen tu hwnt i'r 5 Aelod a gynigid.

Cytunodd y Pwyllgor Craffu i'r cynnig hwnnw.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i

| | | |
|---|---|---|
| | dderbyn yr adroddiad a sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac enwebu'r Aelodau dilynol i eistedd ar y Grŵp (Opsiwn 1):<br><br>Cynghorwyr J. Hill, G.A. Davies, M. Cook, H. McCarthy, P. Edwards, J.C. Morgan, W. Hodgins a J.P. Morgan | |
| **No. 7** | **<u>DIWEDDARU CYNLLUN RHEOLI CYRCHFAN</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Swyddog Rheoli Cyrchfan.<br><br>Datganodd y Cynghorydd L. Parsons fuddiant yn y mater hwn.<br><br>Cyflwynodd y Swyddog Rheoli Cyrchfan yr adroddiad sy'n crynhoi Cynllun Rheoli Cyrchfan Blaenau Gwent. Mae hon yn ddogfen strategol sy'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer datblygu twristiaeth ym Mlaenau Gwent dros y cyfnod 2020-2025 ac sy'n ategu Cynllun Gweithredu Twristiaeth newydd Croeso Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Nod y Cynllun yw sicrhau fod pobl, busnesau a sefydliadau yn cydweithio mewn modd cydlynus i gyflawni targedau a blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer buddsoddiad.<br><br>Dynododd y Cynllun chwe thema trawsbynciol a phum brif thema a maes blaenoriaeth, a rhoddir sylw iddynt yn adran 2.3 yr adroddiad. Mae'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig wedi rhoi ystyriaeth i dueddiadau a blaenoriaethau cenedlaethol, strategol a lleol, a chafodd ei ddatblygu gan y Bartneriaeth Cyrchfan sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.<br><br>Dywedodd Aelod yr ymddangosai fod diffyg taflenni gwybodaeth yn hyrwyddo Blaenau Gwent ar gael mewn ardaloedd twristiaeth eraill, a gofynnodd os oedd cynlluniau i fynd i'r afael â hynny yn y dyfodol a hefyd fwy o wybodaeth ar gyfer y gymuned leol.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod nifer o daflenni ar gael fodd bynnag bod sefydliadau yn amharod i'w cadw oherwydd pandemig Covid. Fodd bynnag, cafodd rhai taflenni eu dosbarthu drwy'r post ac mae gwybodaeth ar lwybrau cerdded lleol ac ati ar gael ar wefan Blaenau Gwent. Cadarnhaodd y Swyddog fod fersiwn electronig o Lawlyfr Cyrchfan Blaenau Gwent yn y broses o gael ei uwchraddio a chaiff ei gylchredeg pan fydd wedi'i orffen. Dywedodd y byddai'n e-bostio copi o Lawlyfr y llynedd i Aelodau er gwybodaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Canmolodd Aelod waith y Tîm ond teimlai y gallai'r Adran Cyfathrebu fod yn fwy rhagweithiol wrth hyrwyddo ei waith.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog y caiff y rhan fwyaf o gyfathrebu'r Tîm ei wneud drwy dde Cymru, a gobeithio pan gaiff cyfyngiadau eu codi maes o law, y bydd hyrwyddo twristiaeth o fewn Blaenau Gwent yn parhau.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn siomedig gyda nifer o feysydd o fewn yr adroddiad sef:<br><br>• Y cyfeiriad at 'gysylltiadau trafnidiaeth da', yng ngoleuni'r ffaith fod y Pwyllgor Craffu wedi cytuno i ddatblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i edrych ar ddarpariaeth trafnidiaeth o fewn y Fwrdeistref.<br>• Mae tudalen 38 yn 'ehangu lleoliadau a gosod dyfeisiau cyfrif cyhoeddus', holodd am leoliad y dyfeisiau cyfrif.<br>• Gan gyfeirio at ddigwyddiadau lleol, holodd pam fod Gorymdaith Sul y Cofio yn cael ei gynnwys gan fod hwn yn ddigwyddiad blynyddol, ond y cafodd digwyddiadau allweddol eraill a gynhelir yn rheolaidd eu gadael allan.<br>• Mae tudalen 39 yn cyfeirio at Grŵp Busnes Glynebwy, a dywedodd nad oedd yn gwybod am y Grŵp.<br>• Llety o fewn y Fwrdeistref ac os yw'n cael eu gwirio'n rheolaidd<br>• Cyflwr y fynwent Colera yng Nghefn Golau, a diffyg arwyddion a gwybodaeth<br>• P'un ai a osodwyd y byrddau gwybodaeth a gynigir ar lwybrau cerdded.<br><br>Ymatebodd y Swyddog fel sy'n dilyn:<br><br>• Cafodd dulliau cyfrif eu gosod ar lwybrau cerdded a gaiff eu rheoli a'u cynnal gan yr Adran Cefn Gwlad.<br>• Darpariaeth trafnidiaeth – ystyriwyd bod gwneud ffordd Blaenau'r cymoedd yn ffordd ddeuol a gwasanaeth bws X4 a datblygu'r rhwydwaith trenau yn fanteisiol i ddod ag ymwelwyr i Flaenau Gwent.<br>• Grŵp Canol Tref Glynebwy – adeg ysgrifennu'r adroddiad roedd y Swyddog yn gweithio gyda'r Grŵp ar nifer o syniadau, ond daeth y Grŵp i ben ers hynny.<br>• Mae sefydliadau llety yn cael eu graddio gan Croeso Cymru | |

a chaiff pob perchennog eu hannog i gofrestru gyda nhw, a chaiff y rhai sy'n gweini bwyd eu gwirio gan Iechyd yr Amgylchedd.

- Mae'r adran digwyddiadau yn cyfeirio at y posteri a gafodd eu paratoi gan y Tîm, ac er na chaiff digwyddiadau Sul y Cofio eu hystyried fel atyniad twristiaeth mae'n ddyletswydd ar y Swyddog i roi gwybodaeth i'r gymuned leol yn ogystal ag ymwelwyr.
- Y fynwent Colera yw yr unig un o'i bath yng Nghymru ac mae'n strwythur rhestredig. Mae arwyddion brown yn cyfeirio at y safle a gwybodaeth ar gael. Mae ffensys diogelwch yno, a hefyd gysylltiadau i Amgueddfa Tredegar.
- Nid yw darpariaeth byrddau gwybodaeth ar lwybrau cerdded yn rhan o gylch gorchwyl y Tîm, ond cadarnhaodd y Swyddog y cafodd rhai eu gosod ar Lwybr Ebwy Fawr a Pharc Bryn Bach eleni.

Yng nghyswllt pryder yr Aelod am ddyfeisiau cyfrif cyhoeddus, esboniodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio fod hyn yn rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Canol y Dref. Roedd y dyfeisiau cyfrif ymwelwyr blaenorol yng nghanol y trefi yn annibynadwy o ran data, ond hefyd roedd nifer o siopau wedi cau ers iddynt gael eu gosod. Fodd bynnag, sicrhawyd contract newydd i edrych ar leoliadau eraill ar eu cyfer ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r cwmni ac Adran Goleuadau Strydoedd y Cyngor i ystyried gosod ar golofnau goleuadau stryd.

Cyfeiriodd aelod arall at y Cynllun Gweithredu, yn neilltuol diwylliant a threftadaeth, a chyfeiriodd at y cynllun Plac Glas a ddatblygwyd nifer o flynyddoedd yn flaenorol i goffau ffigurau dylanwadol o Flaenau Gwent. Dywedodd y bu'r prosiect yn llwyddiannus ar y pryd ac awgrymodd fod y Pwyllgor yn ystyried ailddechrau'r cynllun hwn.

Mewn ymateb, cytunodd y Swyddog Rheoli Cyrchfan ei fod yn llwyddiannus a bod Fforwm Treftadaeth Blaenau Gwent yn symud ymlaen gyda'r cysyniad mewn rhai ffyrdd. Dywedodd y Swyddog y byddai'n hapus i gydlynu gyda'r Fforwm ar y mater hwn, fodd bynnag mae cyllid yn hanfodol a byddai angen symud ymlaen â'r ceisiadau angenrheidiol i sicrhau cyllid.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Archwilio Coffau a gyhoeddwyd ar 26 Tachwedd 2020 a gofynnodd os y gellid ystyried adroddiad ar briodolrwydd enwau

stryd.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cynhaliwyd adolygiad ac y cyflwynir adroddiad maes o law.

Mynegodd Aelod arall bryder am yr adroddiad a theimlai fod angen iddo fod yn hylif i fanteisio ar y cyfleoedd a allai godi. Dywedodd nad oedd yr adroddiad yn rhoi sylw i nifer o feysydd ee. y ffaith bod Blaenau Gwent yn borth i Fannau Brycheiniog, mwy o gyfeiriad at y diwydiant dur yng Nglynebwy, cysylltiadau gyda mudiad y Siartwyr a'r prosiect GIG a chysylltiadau gyda Chymdeithas Cymorth Meddygol Tredegar

Cyfeiriodd hefyd at y Cynllun Gweithredu a dywedodd mai'r Cyngor oedd yn arwain ar gyfer y rhan fwyaf o'r gweithgareddau. Dywedodd nad oedd gan y Tîm yr adnoddau angenrheidiol a theimlai fod angen rhoi mwy o bwyslais ar sefydliadau partner a chyfeiriodd at y prosiect GIG fel enghraifft ragorol o weithio gyda phartneriaid, yn arbennig Ymddiriedolaeth y Meysydd Glo a Cymru Creation, a mynegodd bryder iddynt gael eu gadael allan o'r adroddiad.

Mewn ymateb dywedodd y Swyddog fod y Cynllun Gweithredu yn nodi rhanddeiliaid eraill, ond dywedodd y byddai'n cynnwys Adfywio'r Meysydd Glo a phartneriaid eraill. Yng nghyswllt y Prosiect GIG, cadarnhaodd fod adborth ar yr adroddiad ar gael yn Nhŷ Bedwellte beth amser yn ôl a bod 10 Y Cylch yn un o'r elfennau y rhoddir sylw iddo. Mae'r Swyddog wedi cyflenwi adroddiad a lluniau i Adfywio'r Meysydd Glo i'w defnyddio wrth gynllunio a datblygu dehongli, a chyflwynir yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu maes o law fel ran o'r flaenraglen gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach gan Aelod am ddarparu gwefan arbennig ar dwristiaeth Blaenau Gwent, dywedodd y Swyddog mai polisi'r Cyngor oedd peidio cael gwefannau allanol ar wahân. Mae'r holl wybodaeth am dwristiaeth ar gael ar wefan Blaenau Gwent.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol, ar ôl gwrando ar sylwadau Aelodau, bod yr adroddiad yn cael ei ailystyried i roi eglurdeb yn nhermau gwaith y Cyngor a phartneriaid, a gwnaeth hefyd gysylltiad strategol i'r meysydd a godwyd gan Aelodau.

| | | |
|---|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i **OHIRIO** yr adroddiad. | |
| **No. 8** | **ADOLYGIAD PERFFORMIAD BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD CHWARTER 1**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Corfforaethol a'r Pennaeth Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi gwybodaeth am berfformiad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ystod Chwarter 1 2020/21. Mae'r adroddiad yn crynhoi ac yn rhoi sylw i raglenni allweddol o waith y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw ac roedd o ddiddordeb i Flaenau Gwent, ac amlygir hyn yn adran 2.2 yr adroddiad. Wedyn aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at gynnydd a wnaed ar rai o'r prosiectau allweddol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at dudalen 59 yr adroddiad, sef y gostyngiad 51% a gynigir mewn gwresogi a phŵer domestig, a gofynnodd sut y cyflawnir hyn a ph'un ai a fyddai'r costau yn dod ar berchnogion y tai a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.<br><br>Dywedodd y Swyddog nad oedd ganddi fanylion ar hyn, fodd bynnag gwyddai am y gwaith a wnaethpwyd ar Safonau Ansawdd Tai Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf, a chafodd LCC y dasg gyda gostwng gwres a phŵer domestig. Roedd Llywodraeth Cymru yn gwthio'r agenda a chadarnhaodd y byddai trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda phartneriaid yng nghyswllt problemau a chyllid. Dywedodd hefyd y cafodd cyllid cynaliadwyedd ei sicrhau'n ddiweddar ar gyfer rhai o adeiladau diwydiannol y Cyngor.<br><br>Mynegodd yr Aelod bryder fod llawer o'r tai ym Mlaenau Gwent yn hen a'i bod yn debygol y byddai cost y mesurau gofynnol yn disgyn ar berchnogion y cartrefi. Yng nghyswllt tai newydd, gofynnod os gallai darparu cynlluniau arbed ynni fel paneli solar ac yn y blaen ddod yn ofyniad cynllunio.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod y safonau tai presennol ar gyfer adeiladau newydd yn sicrhau'n sylweddol llai o golled gwres. Byddai gostwng allyriadau pŵer yn anos yn y dyfodol, fodd bynnag mae rheoliadau adeiladu newydd sy'n dod i'r amlwg angen ynni cynaliadwy mewn datblygiadau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Mewn ymateb i gwestiwn pellach am argaeledd arfaethedig tir ar gyfer plannu coed, dywedodd y Swyddog na wyddai am unrhyw gynigion rhanbarthol, fodd bynnag caiff gwaith ei wneud yn lleol gyda LCC ac Adran yr Amgylchedd.<br><br>Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Datblygu a Stadau y cafodd datblygwyr eu hannog i gynnwys cartrefi cynaliadwy yn ystod ymholiadau cyn gwneud cais a'r prif fater a ddaeth i'r amlwg yw y byddai'n well i hyn ddod o fewn rheoliadau adeiladu a fyddai'n rhoi fframwaith llawer gwell i wthio'r agenda.<br><br>Yng nghyswllt plannu coed, cyfeiriodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio at gynllun Plannu Cymru a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru nifer o flynyddoedd yn ôl a dywedodd y byddai'n hapus i ailedrych ar unrhyw gyfleoedd cyllid drwy'r cynllun hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y Metro Plus a dywedodd y teimlai, heb y cysylltiad i Gasnewydd, y byddai'r 4 trên yr awr a gynigir i Flaenau Gwent o Gaerdydd yn ormodol, a dywedodd y dylai'r Cyngor fod yn gwthio'r cysylltiad i Gasnewydd. Dywedodd hefyd y dylai fod cysylltiadau i Flaenau'r Cymoedd, yn arbennig stadau diwydiannol, a holodd sut y byddai cysylltiad Abertyleri yn dod â buddion economaidd gyda 2 drên i Lynebwy a 2 i Abertyleri.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y Gronfa Catalydd Tai ac adroddiad blaenorol yn sôn am nifer o safleoedd, a mynegodd ei siom nad oedd yr un o'r safleoedd hynny wedi cyflawni'r meini prawf ar gyfer cyllid a chwestiynodd hyfywedd gyflawni'r safleoedd hynny yn y dyfodol heb y cyllid hwn.<br><br>Mynegodd yr Aelod bryder nad oedd yr afon Sirhywi wedi ei chynnwys yn y cynigion am drydan dŵr, ac nad oes sôn am gysylltedd 5G yn yr adroddiad.<br><br>Yng nghyswllt sylwadau'r Aelod am y cysylltiadau trên, dywedodd y Swyddog ein bod angen mwy o drafodaethau manwl yn fewnol ym Mlaenau Gwent i wthio hyn trwodd yn strategol. Fodd bynnag, yng nghyswllt ein gwaith gyda Trafnidiaeth Cymru mae'n debyg fod y gwaith wedi mynd mor bell ag y gellid disgwyl. Yng nghyswllt y cysylltiad i Gasnewydd, cadarnhaodd y Swyddog fod gwaith yn dal i fynd ymlaen ar hyn a bod Trafnidiaeth Cymru yn ystyried opsiynau am sut y gellid cyflawni hyn.<br><br>Yng nghyswllt y Gronfa Catalydd Tai, esboniodd y Swyddog fod y | |

| | | |
|---|---|---|
| | safle neilltuol hwn yn cyflawni'r meini prawf a'r amserlenni ar gyfer cyflwyno cyllid. Fodd bynnag, cadarnhaodd fod cyllid amgen yn cael ei ymchwilio ar gyfer safleoedd eraill y cyfeiriodd yr Aelod atynt.<br><br>Esboniodd y Swyddog bod y prosiect pŵer dŵr mewn cysylltiad gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a chafodd y prosiect 5G ei atal oherwydd mai dim ond 5 cymdeithas tai oedd wedi mynegi diddordeb.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer am y Porth Gorllewinol a dywedodd y Swyddog ei bod yn bwysig i'r Cyngor gymryd unrhyw gyfle oedd ar gael drwy'r Porth Gorllewinol, ond hefyd i ffurfio ei gyfleoedd ei hun drwy Ffordd Blaenau'r Cymoedd a chysylltiadau i'r Midlands, ac mae gwaith yn mynd yn ei flaen yn nhermau ymgysylltu â busnesau. Dywedodd ei bod yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi ei gynllun gweithgynhyrchu allan ar gyfer ymgynghoriad gan fod hyn yn allweddol i'r Cymoedd.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac ystyried y cynnydd cyffredinol a gwneud sylwadau ar gynnydd cyn i'r adroddiad fynd i'r Cyngor (Opsiwn 2). | |
| **No. 9** | **<u>ADOLYGIAD BLYNYDDOL PROSBECTWS YNNI</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Tîm Cyfleoedd Adfywio yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar y Prosbectws Ynni a'r gweithgareddau a wnaed ers ei gymeradwyo yn 2019. Atodir adroddiad adolygiad blynyddol yn cynnwys uchafbwyntiau ar gyfer pob un o'r prosiectau a ddynodwyd o fewn y Prosbectws Ynni yn Atodiad 1, ac aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y Rhwydwaith Ynni Ardal a gofynnodd os oedd unrhyw botensial ar gyfer hyn o fewn anheddau.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm fod cost cysylltu ar safle'r Gweithfeydd yn anodd, fodd bynnag mae potensial ar gyfer prosiectau'r dyfodol i gysylltu i anheddau a chaiff yr holl agweddau hyn eu cynnwys o fewn y rhaglen Byw Deallus. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at y fflyd allyriadau isel ac amserlen pryd y gellid disgwyl cerbydau trydan llai gan y Cyngor.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Swyddog na wyddai am yr union amserlen, ond bod y Tîm yn eithaf awyddus i symud ymlaen â hyn ac roedd yn deall fod cynigion yn dod ymlaen yn gyflym iawn.<br><br>Canmolodd Aelod yr adroddiad, yn neilltuol newyddion y prosiect pŵer dŵr.<br><br>Cyfeiriodd Aelod arall at y Rhwydwaith Ynni Ardal a holodd am y gwres a gollir yn y Swyddfeydd Cyffredinol.<br><br>Dywedodd y Swyddog fod gwaith y gellid ei wneud i ddeall lefel y colli gwres yn yr adeilad, fodd bynnag roedd y mesurau y gellid eu cymryd i ostwng colli gwres yn gyfyngedig gan ei fod yn adeilad rhestredig.<br><br>Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol fod y Swyddfeydd Cyffredinol wedi ei adnewyddu i'r safonau colli ynni isaf ar gyfer adeilad rhestredig, felly yn nhermau ffabrig yr adeilad ychydig mwy y gellid ei wneud. Dywedodd ei fod yn siomedig ar y pryd fod CADW wedi gwrthod caniatâd i alluogi newid y ffenestri a'r drysau, ond roedd yr adeilad yn eithaf effeithol yng nghyswllt colli ynni a gwres.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Craffu yn:<br><br>• Parhau i gefnogi, hyrwyddo a datblygu prosiectau o fewn y Prosbectws Ynni ac i sicrhau fod y ddogfen yn cael ei diweddaru i adlewyrchu unrhyw brosiectau ychwanegol a ddaeth i'r amlwg; a<br>• Hefyd i barhau i ddynodi prosiectau yn y dyfodol a fyddai hefyd yn cyflawni gweledigaeth ac amcanion y Cyngor yng nghyswllt ynni a datgarboneiddio (Opsiwn 2). | |
| **No. 10** | <u>**BLAENRAGLEN GWAITH: 6 IONAWR 2021**</u><br><br>Cyflwynwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 6 Ionawr 2021.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd y caiff diweddariad y Cadeirydd o'r Cydbwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth | |

| | | |
|---|---|---|
| | Caerdydd.<br><br>Gofynnodd Aelodau am yr adroddiadau ychwanegol dilynol:<br><br>Dadansoddiad o arian a wariwyd ar ffioedd ymgynghoriaeth ar draws y portffolio yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf<br><br>Diweddariad cynnydd Cwm Technoleg<br><br>Cynigiodd Aelod fod yr adroddiad ar ymweliad i ffatri gwydr yn Nhwrci yn lle eitem pecyn gwybodaeth.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer ac mewn pleidlais cytunwyd y byddai adroddiad yr ymweliad i'r ffatri wydr yn Nhwrci yn parhau fel eitem Pecyn Gwybodaeth.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod i dderbyn yr adroddiad. | |